

Ffurflen Gais ar gyfer Hysbysu Ymlaen Llaw am Ddatblygiad Arfaethedig mewn Perthynas â Datblygiad a Ganiateir gan Weithredwyr Systemau Cod Telathrebu

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 Atodlen 2, rhan 24

Gelwir rhai mathau o ddatblygiad telathrebu, er enghraifft, mastiau ffonau symudol, yn 'ddatblygiad a ganiateir' ac mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol eu cymeradwyo ymlaen llaw.

Mae'r weithdrefn cymeradwyo ymlaen llaw yn golygu nad yw'r egwyddor datblygu yn broblem. Dim ond lleoliad ac ymddangosiad y cynnig y gall yr ACLI eu hystyried.

Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol 56 diwrnod i roi gwybod i weithredwyr y mast am ei benderfyniad o ran pa un a oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw o ran lleoliad ac ymddangosiad ac i roi gwybod i'r gweithredwr am ei benderfyniad i roi cymeradwyaeth neu i wrthod cymeradwyaeth.

Nid oes unrhyw bŵer i ymestyn y cyfnod o 56 diwrnod.

Mae'r weithdrefn cymeradwyo ymlaen llaw yn berthnasol i godi, gosod, diwygio neu amnewid:

- mast daear hyd at 15 metr o uchder, gan gynnwys yr uchder hwnnw
- mast daear hyd at 15 metr o uchder, gan gynnwys yr uchder hwnnw, a osodwyd ar adeilad neu strwythur
- antena (gan gynnwys unrhyw strwythur ategol) sydd dros 4 metr neu fwy uwchlaw uchder yr adeilad neu'r strwythur (ac eithrio mast) yn y man y cafodd ei osod neu y bwriedir ei osod
- blwch ffôn cyhoeddus
- adeilad ag offer radio â chyfaint o 2.5 metr ciwbig
- datblygiad sy'n atodol i adeilad ag offer radio (er enghraifft, ffensys neu ffyrdd mynediad)